



ADEILADAU HANESYDDOL

EGWYDDOR ATGYWEIRIO

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Gwaith rheoli a chynnal a chadw rheolaidd yw sylfaen gwaith cadwraeth da. Mae cynnal archwiliadau rheolaidd o gyflwr eich ased hanesyddol a dod o hyd i unrhyw waith atgyweirio sydd ei angen yn fuddsoddiad da sy'n gallu helpu i atal problemau rhag gwaethygu.
- 1.2 Bydd hyd yn oed gwaith atgyweirio cymharol fach yn cael effaith ar arwyddocâd eich ased hanesyddol, felly mae'n bwysig gofalu eu bod wedi'u cynllunio i wneud cyn lleied o niwed ag y bo modd. Mae'n syniad da dod i ddeall pam mae angen gwaith atgyweirio, er mwyn gallu mynd i'r afael â'r achos yn ogystal â'r symptom. Wrth gynllunio gwaith atgyweirio, mae'n debygol mai'r ateb gorau o ran cadwraeth yw'r un sy'n caniatáu cadw cymaint â phosib' o'r adeiladwaith gwreiddiol o arwyddocâd.
- 1.3 Gan gadw hyn mewn cof, mae Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu peilot o gynllun grant gwaith atgyweirio a fydd ar fynd am ddwy flwyddyn ariannol. Ar ôl hynny, bydd y buddion yn cael eu gwerthuso o ran y potensial i ymestyn y cynllun yn y dyfodol.
- 1.4 Y brif egwyddor y cedwir ati wrth ystyried gwaith atgyweirio gyda chymorth grant fydd sicrhau ei fod yn atal y broses o ddirywio heb niweidio cymeriad yr adeilad, newid y nodweddion oedd yn ei wneud yn hanesyddol neu'n bensaernïol bwysig, neu ddinistrio neu amharu ar yr adeiladwaith hanesyddol yn ddiangen.
- 1.5 Mae'r canllaw hwn yn rhestru'r egwyddorion bras y dylid eu dilyn wrth ystyried atgyweirio adeiladau hanesyddol.
- 1.6 Mae'r egwyddorion sydd wedi'u rhestr yma'n rhai cadarn. Fodd bynnag, dylid pwysleisio o'r cychwyn y bydd yn rhaid ystyried pob achos penodol o atgyweirio yn ôl ei rinweddau ei hun.

2. ADNABOD YR ADEILAD

- 2.1 I atgyweirio hen adeiladau'n dda, mae'n rhaid eu deall nhw. Mae deall nodweddion pensaernïol penodol adeilad ac astudio sut y cafodd ei adeiladu, ei ddefnydd a'i ddatblygiad, yn gymdeithasol ac o safbwynt ei adeiladwaith, i gyd yn help i roi rhywun ar ben ffordd. Gall y wybodaeth hon hefyd helpu i ddarganfod pam ei fod yn dirywio a sut i newid hynny.

- 2.2 Efallai y bydd angen ymchwiliadau archeolegol neu bensaernïol i bennu cyd-destun hanesyddol ehangach yr adeilad. Efallai y bydd angen cofnodi manylion sydd o ddiddordeb a dehongli datblygiad adeilad a'i gyd-destun hanesyddol ehangach. Dylai'r gwaith cofnodi barhau yn ystod y gwaith atgyweirio a dylid rhoi gwybod i'r Cyngor am y dull o gofnodi, a dylid gallu darparu'r cofnodion hyn iddo ar gais.
- 2.3 Dylid cynnal arolwg o ddiffygion strwythurol yr adeilad bob tro cyn gwneud gwaith atgyweirio. Dylai'r arolwg gynnwys ymchwiliad o natur a chyflwr ei ddefnyddiau a'r hyn a achosodd y dirywiad a phroses y dirywiad.

3. YR ANGEN AM ATGYWEIRIO

- 3.1 Rhaid gwneud cyn lleied o waith atgyweirio ag sydd angen er mwyn sefydlogi a gwarchod adeiladau er mwyn iddynt oroesi am gyfnod hir ac i fodloni anghenion defnydd priodol ohonynt.

4. ATGYWEIRIO NID ADFER

- 4.1 Mae pob adeilad yn dirywio. Efallai fod rhai elfennau pwysig yn nyluniad adeilad, er enghraifft, balwstrad, cornisiau, mowldin capan neu fframiau ffenestri, wedi cael eu colli yn y gorffennol. Dylid ailosod elfennau coll sydd o arwyddocâd strwythurol wrth wneud gwaith atgyweirio, fodd bynnag, yn gyffredinol, dylid osgoi ailgyflwyno eitemau anstrwythurol neu addurniadol oni bai fod tystiolaeth gadarn i allu gosod rhai cywir yn ôl.
- 4.2 Ni ddylai dim o'r adeiladwaith hanesyddol gael ei golli o ganlyniad i waith adfer. Dylid osgoi gwaith ailosod dyfaliadol i 'adfer' nodweddion o ddyddiad cynnar tybiedig. Mae dilysrwydd adeilad hanesyddol yn dibynnu ar ei ddyluniad ac ar ba mor wreiddiol yw ei adeiladwaith. Bydd gwaith ailosod diangen yn lleihau ei werth fel ffynhonnell o wybodaeth hanesyddol yn sylweddol.

5. TECHNEGAI ATGYWEIRIO TRADDODIADOL

- 5.1 Dylai gwaith atgyweirio gyd-fynd â'r technegau adeiladu sydd yno'n barod. Ni ddylid ond ystyried eithriadau pan mae diffygion wedi'u hachosi gan wendid cynhenid yn y dull adeiladu sydd wedi'i ddefnyddio'n barod. Nid hen adeiladau yw'r lle i dreialu dulliau heb eu profi o atgyweirio.
- 5.2 Mae gwaith atgyweirio sy'n cael ei wneud yn y fan a'r lle, yn hytrach nag ar elfennau sy'n cael eu tynnu a'u symud i'r fainc waith, yn helpu i warchod cywirdeb a pharhad yr adeilad. Wrth wneud gwaith atgyweirio, dylid bob amser ffitio'r defnydd newydd ar yr hen, ac nid addasu'r hen i ffitio i'r newydd. Fel hyn, gall mwy o'r adeiladwaith hanesyddol oroesi.

- 5.3 Lle bo modd, dylid gallu dad-wneud gwaith atgyweirio ac ni ddylai olygu nad oes modd gwneud mwy o waith trin yn y dyfodol. Mae crefftwaith gofalus o safon, sy'n parchu nodweddion ac adeiladwaith yr adeilad yn hanfodol. Ni ddylai gwaith atgyweirio o safon gael ei guddio'n fwriadol ac ni ddylid 'chwaith geisio ei heneiddio'n artiffisial. Anaml iawn mae'n cael ei guddio'n llwyddiannus ac mae fel arfer yn edrych yn chwithig ac yn 'ffug'.
- 5.4 Mae bolio, plygu, sigo a gwyro i gyd yn arwyddion o oed sy'n haeddu parch. Ni ddylai gwaith atgyweirio da geisio cuddio beiau na chreu nodweddion smart, newydd eu gwedd. Gall arwydd o oed fod yn hardd ynddo'i hun, a dylid trin hynny'n sympathetig yn hytrach na chael gwared ag o.

6. PARU DEFNYDDIAU

- 6.1 Dylid osgoi defnyddio defnyddiau ail law gan fod y rhain yn drysu dealltwriaeth o'r adeilad a'i werth. Mae'r diwydiant defnyddiau ail law hefyd yn annog dinistrio a datgymalu hen adeiladau. Fodd bynnag, mae'r galw am yr un defnyddiau bellach yn help iddynt barhau i gael eu cynhyrchu.
- 6.2 Fel rheol, dylai defnyddiau fod yr un fath â'r elfen sy'n cael ei hatgyweirio. Gellir ystyried defnyddio defnyddiau gwahanol ond rhai sy'n cydweddu ar achlysuron prin fel dewis arall 'gonest'.

7. TYNNU ADDASIADAU DIWEDDARACH

- 7.1 Mae ychwanegiadau ac addasiadau, gan gynnwys gwaith atgyweirio cynharach, yn bwysig i adrodd holl hanes yr adeilad. Bydd gogwydd cryf o blaid eu cadw bob tro. Rhaid ystyried y goblygiadau llawn yn ofalus cyn tynnu unrhyw nodweddion sydd i'w gweld heb unrhyw werth ynddyn nhw eu hunain. Os bydd nodweddion yn cael eu tynnu, dylid eu cofnodi yn y fan a'r lle.

8. GWAITH CYNNAL A CHADW RHEOLAIDD

- 8.1 Yn olaf ond nid lleiaf, gwneud gwaith cynnal a chadw, heb os, yw'r dull mwyaf effeithiol ac ymarferol ar gyfer cadwraeth. Mae'n osgoi'r angen i wneud gwaith atgyweirio mwy ac, o bosib', mwy costus yn nes ymlaen.
- 8.2 Mae'r egwyddorion uchod wedi'u nodi mewn canllawiau perthnasol gan Cadw: ['Egwyddorion Cadwraeth'](#)